Astudiaeth achos:
Grant Adnewyddu Menter

Rhanbarth
Sir y Fflint

Sector
Manwerthu a Lletygarwch

Gwerth y prosiect
£6,093 and £5,504

CANOLFAN GREFFT A HEN BETHAU AFONWEN A BWYTY EDENSHINE

Mae cyrchfan enwog i ymwelwyr yn profi nad yw adeilad hanesyddol yn rhwystr rhag creu dyfodol cynaliadwy.

Gallwch golli eich hunain am nifer o oriau hapus yng Nghanolfan Grefftau a Hen Bethau Afonwen. Dros y 32 mlynedd diwethaf, mae'r busnes teuluol hwn wedi dod yn gyrchfan y mae'n rhaid ei gweld gyda'i chasgliad helaeth o hen greiriau a nwyddau casgladwy, arddangosiadau a gweithdai gan artistiaid gwadd, siop anrhegion â stoc dda a bwyty sy'n arbenigo mewn cynnyrch lleol ffres.

Mae ei leoliad ar lan y dŵr y tu mewn i felin decstilau wedi'i haddasu i gyd yn rhan o'r swyn. Ond mae rhedeg busnes o adeilad hanesyddol yn dod â'i heriau ei hun, yn enwedig pan fyddwch chi'n ceisio lleihau costau rhedeg a gwella eich cymwysterau eco. Yn y gaeaf, roedd y ganolfan yn anodd ei gwresogi ac roedd yn llawn goleuadau stribed aneffeithlon. Roedd grant Adnewyddu Menter yn caniatáu i'r perchnogion Janet Monshin Dallolio a'i gŵr Adrian osod set o ddrysau mynediad gwydr dwbl i atal aer oer rhag chwythu i fyny'r coridor. Ymgymerodd trydanwr â'r dasg enfawr o osod goleuadau LED yn lle'r holl fylbiau a ffitiadau golau.

Y canlyniad oedd adeilad cynhesach, mwy croesawgar gydag arddangosfeydd wedi'u goleuo'n well – a 14% o ostyngiad mewn costau trydan. "Yn yr amgylchedd economaidd ansicr hwn, mae'n bwysig canolbwyntio ar effeithlonrwydd ynni a chynaliadwyedd y busnes," meddai Janet.

Dyna pam eu bod wedi gwneud cais am grant ar wahân ar gyfer eu Bwyty Edenshine, lle mae Janet a'i thîm yn gweini prydau wedi'u coginio'n ffres, gan gynnwys eu pei cig eidion a chwrw. Fe wnaethon nhw uwchraddio pedair ffenestr, gan gynnwys dwy yn y gegin nad oedd yn agor o'r blaen, gan sicrhau bod gwres yn cael ei gadw'n well mewn misoedd oer, a gwell llif aer yn yr haf. Cafodd rhewgell unionsyth a thri microdon eu disodli gan fodelau mwy ynni-effeithlon.

Roedd y grant hefyd yn golygu y gallent ddefnyddio system pwynt gwerthu electronig (Epos) newydd sbon gyda thil wedi'i uwchraddio a thabledi ar gyfer archebion – a oedd yn gweithio'n berffaith ar fyrddau allanol hyd yn oed yn llewyrch haul yr haf.

"Erbyn hyn, rydym yn gweld archebu'n gynt, gwasanaeth mwy effeithlon o flaen y tŷ a'r gegin, a chyfathrebu mwy llyfn rhwng yr holl staff," esbonia Janet. "Mae'n arwain at well profiad i gwsmeriaid a llai o straen i'n tîm ffyddlon. Mae ein grantiau Adnewyddu Menter wedi ein galluogi i wneud yr holl waith hwn yn gynt nag y gallem fel arall fod wedi'i wneud – a gweld y gwelliannau ar unwaith. Mae hefyd wedi rhoi'r hyblygrwydd i ni ystyried buddsoddi mewn prosiectau cynaliadwy eraill."

CADWYN Clwyd
Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas
LEADER
Llywodraeth Cymru
Welsh Government